
# Trychfilod




4 Beth ydy Trychfilyn?


6 Mathau o Drychfilod


8 Glöyn byw


12 Gwenynen


16 Morgrugyn


20 Chwilen


22 Sut mae Trychfilod yn Tyfu?


23 Rhestr Geiriau a Mynegai



# Beth ydy Trychfilyn?

## Anifail bychan ydy trychfilyn. Mae gan y trychfilyn chwech o goesau a thair rhan i'w gorff.



Tair prif ran corff y trychfilyn ydy'r pen, y **thoracs** a'r **abdomen**.



Mae **teimlyddion** gan bob trychfilyn. Mae dau deimlydd ganddo er mwyn gallu teimlo, blasu ac arogli.

Does dim esgyrn ganddo. Mae ganddo gragen galed sy'n amddiffyn ei gorff. Mae'r gragen galed hon yn ffurfio sgerbwd y tu allan i gorff y trychfilyn – y **sgerbwd allanol** ydy'r enw arno.

Mae rhai trychfilod
yn gallu hedfan.
Mae sioncyn y gwair
yn gallu hedfan.






# Mathau o Drychfilod


## Mae nifer o fathau gwahanol (rhywogaeth) o drychfilod. Mae yna fwy na 800,000 o wahanol fathau o drychfilod.

Mae gan lawer o drychfilod adenydd. Mae trychfilod yn hedfan i chwilio am fwyd. Maen nhw hefyd yn hedfan i osgoi perygl. Mae'r glöyn byw, y chwilen a'r wenynen yn gallu hedfan.



Mae rhai trychfilod yn byw gyda'i gilydd fel un teulu mawr. Mae morgrug, gwenyn a gwenyn meirch yn byw fel un teulu mawr. Yr enw ar y teulu mawr hwn ydy **cytref**.

Mae trychfilod yn bwydo mewn dwy ffordd. Mae rhai ohonyn nhw, fel y morgrug a'r lindys, yn brathu ac yn cnoi eu bwyd. Mae trychfilod eraill, fel y glöyn byw a'r mosgito, yn sugno eu bwyd trwy diwb gwag.




Mae adenydd gwenynen fêl yn curo 200 gwaith bob eiliad.



Mae gwas y neidr yn gallu hedfan yn gyflym iawn.




Mae gwenyn meirch yn hoffi cnoi eu bwyd, fel y ffrwyth hwn.



# Glöyn Byw

Trychfilyn gydag adenydd mawr ydy'r glöyn byw. Mae gan y glöyn byw chwech o goesau a thair rhan i'w gorff.




Mae tair rhan i'w gorff sef y pen, y thoracs a'r abdomen. Mae gan y glöyn byw adenydd hefyd. Mae'r glöyn byw yn defnyddio ei adenydd lliwgar i hedfan ac i ddenu cymar.

Mae dau o deimlyddion gan y glöyn byw. Mae'n eu defnyddio i deimlo, blasu ac arogli.

Lindys ydy'r glöyn byw ar ddechrau ei fywyd. Mae'r lindys hwn yn newid i fod yn löyn byw. Y gair am y newid hwn ydy **metamorffosis**.



Glöyn byw yn paratoi i hedfan.

**ffeithIAU!**

**Y MWYAF!**

Mae adenydd y glöyn byw hwn mor llydan â llaw dyn.

| Trychfilyn | Nifer y Rhywogaethau |
|---|---|
| glöyn byw | 15,000 |
| gwyfyn | 120,000 |

# Cylch Bywyd Glöyn Byw

## Dyma sut mae'r glöyn byw yn tyfu o'r wy i fod yn oedolyn.

1. Mae'r glöyn byw yn dodwy ei wyau ar blanhigyn. Mae lindys bychan yn deor o bob wy.

2. Bydd y lindys yn bwyta rhan o'r planhigyn. Bydd y lindys yn tyfu'n gyflym.


3. Mae cragen galed yn tyfu o gwmpas y lindys. Y gair am y gragen galed hon ydy **chwiler**. Mae corff y lindys yn newid y tu mewn i'r chwiler.

4. Mae glöyn byw yn dod allan o'r chwiler. Oedolyn ydy'r glöyn byw.


1
wy
2
lindys
3
chwiler
4
glöyn byw

# Gwenynen

Trychfilyn sy'n hedfan ydy'r wenynen. Mae ganddi chwech o goesau a thair prif ran i'w chorff.




Mae pen, thoracs ac abdomen gan wenynen. Mae dau bâr o adenydd gan wenynen. Mae ganddi ddau deimlydd er mwyn iddi allu teimlo, blasu ac arogli.

Mae'r gwenyn mêl yn byw a gweithio gyda'i gilydd o fewn y gytref. Gair arall ar y gytref ydy'r **cwch gwenyn**. Mae brenhines ym mhob cwch. Bydd rhai o'r gwenyn yn gofalu am y frenhines a'r gwenyn bach sy'n tyfu – dyna eu gwaith.

Bydd y gwenyn eraill yn hedfan allan i chwilio am fwyd. Bydd y gwenyn yn casglu **neithdar** a phaill o'r blodau.



Mae'r gwenyn mêl yma yn gweithio yn y cwch gwenyn.

## ffeithIAU!

### WYDDOCH CHI?

Mae'r frenhines yn dodwy hyd at 1,500 o wyau bob dydd.

| Trychfilyn | Nifer y Rhywogaethau |
|---|---|
| gwenyn mêl | 1,000 |
| gwenyn meirch | 110,000 |

# Cylch Bywyd Gwenynen

## Dyma sut mae gwenynen fêl yn tyfu o'r wy i fod yn oedolyn.

1. Y frenhines sy'n dodwy'r wyau. Mae hi'n dodwy'r wyau fesul un mewn cell fêl unigol. (Y gair am y gell fêl ydy **dil mêl**).

2. Mae pob wy yn tyfu i fod yn **larfa**. Mae'r gwenyn sy'n weithwyr yn bwydo'r larfa, ac yn gofalu am y larfa.

3. Mae'r larfa yn tyfu i fod yn **pwpa**.
   Mae'r pwpa yn troi yn wenynen.

4. Wedi iddi dyfu bydd y wenynen yn torri allan o'r dil mêl. Mae'n cymryd tua thair wythnos i dyfu o fod yn wy i fod yn oedolyn.





1
2
3
4



# Morgrugyn

## Trychfilyn ydy'r morgrugyn. Mae gan y morgrugyn chwech o goesau a thair prif ran i'w gorff.




Mae tair rhan i gorff y morgrugyn. Y tair rhan yma ydy'r pen, y thoracs a'r abdomen.

Mae dau deimlydd gan y morgrugyn. Mae'r morgrugyn yn eu defnyddio nhw i deimlo, blasu ac arogli.

Maen nhw'n byw mewn cytref fawr. Y gair am y gytref hon ydy nyth. Mae llawer o ystafelloedd mewn un nyth.



Mae'r morgrug yma yn cario wyau a larfau.

ffeithIAU!

## WYDDOCH CHI?

Mae rhai morgrug yn debyg i ffermwyr! Yn gyntaf, maen nhw'n cario dail i'r nyth. Wedyn, maen nhw'n cnoi'r dail fel bod ffwng yn tyfu dros y dail. Yna, mae'r morgrug yn bwyta'r ffwng!

| Trychfilyn | Nifer y Rhywogaethau |
|---|---|
| morgrug | dros 8,000 |

# Cylch Bywyd Morgrugyn

Dyma sut mae morgrugyn yn tyfu o'r wy i fod yn oedolyn.


1. Mae brenhines gan bob cytref o forgrug. Y frenhines sy'n dodwy'r wyau. Mae'r gweithwyr yn cario'r wyau i ystafelloedd eraill yn y nyth.

2. Mae larfa yn deor o'r wyau. Mae morgrug eraill yn gofalu am y larfau.

3. Mae cragen galed yn tyfu dros bob larfa – dyma'r pwpa.

4. Ar ôl dwy neu dair wythnos, mae oedolyn yn dod allan o'r gragen.






2
4
3
1
tomen sbwriel



# Chwilen

## Trychfilyn ydy'r chwilen. Mae gan y chwilen chwech o goesau a thair rhan i'w chorff.




Mae tair rhan i gorff y chwilen sef y pen, y thoracs a'r abdomen.

Mae pâr arall o adenydd wedi eu cuddio o dan y pâr o adenydd sydd ar y tu allan. Mae'r adenydd allanol yn gwneud cragen galed o gwmpas corff y chwilen.

Mae yna nifer o fathau gwahanol o chwilod. Mae mwy o chwilod ar y Ddaear nag unrhyw drychfilyn arall. Maen nhw'n byw ymhob rhan o'r Ddaear. Ond dydyn nhw ddim yn byw yn y môr.



Gallwch weld dau bâr o adenydd ar y fuwch goch gota yma.






**ffeithIAU!**

**Y TRYMAF!**

Mae chwilen goliath yn gallu pwyso cymaint â thair llygoden!

| Trychfilyn | Nifer y Rhywogaethau |
|---|---|
| chwilen | mwy na 300,000 |

# Sut mae Trychfilod yn Tyfu?

| | 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|---|
| **glöyn byw** |  wy |  lindysyn |  pwpa |  oedolyn |
| **morgrugyn** |  wy |  larfa |  pwpa |  oedolyn |
| **gwenynen** |  wy |  larfa |  pwpa |  oedolyn |
| **chwilen** |  wy |  lindysyn |  pwpa |  oedolyn |

# Rhestr Geiriau



| | |
|---|---|
| abdomen | y rhan olaf o gorff trychfilyn |
| cwch gwenyn | cartref y gwenyn mêl |
| cytref | teulu o drychfilod sy'n byw gyda'i gilydd |
| chwiler | y gragen o groen caled sydd o gwmpas y pwpa |
| dil mêl | ystafelloedd bach o gwyr mewn cwch gwenyn |
| larfa | trychfilyn ifanc. Mae'n feddal ac yn debyg i fwydyn |
| metamorffosis | newid o un ffurf i ffurf arall |
| neithdar | bwyd melys sy'n dod o blanhigion. Mae'r gwenyn yn casglu'r bwyd hwn i wneud mêl |
| pwpa | y trychfilyn sydd y tu mewn i'r chwiler |
| sgerbwd allanol | y sgerbwd sydd ar y tu allan i gorff y trychfilyn |
| teimlyddion | y ddau ddarn hir tenau ar ben y trychfilyn. Maen nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer teimlo, blasu ac arogli |
| thoracs | rhan o gorff y trychfilyn sydd rhwng y pen a'r abdomen |